

Fframweithiau cyffredin ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit

Gorffennaf 2018

1. Cyflwyniad

Mae'r sector amgylcheddol wedi ei ddylanwadu'n fawr gan aelodaeth y DU o'r UE. Mae fframweithiau'r UE yn rheoleiddio cymorth a pholisi amaethyddol, perthynas fasnachu, rheoli amgylcheddol a lles anifeiliaid ar hyn o bryd. Gwnaeth y Pwyllgor ddarn byr o waith i lywio'r gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin ar gyfer y DU ar ôl Brexit.

1. Rhwng 18 Ebrill a 18 Mai 2018, gofynnodd y Pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig ar yr ymagwedd at fframweithiau cyffredinol mewn meysydd polisi amgylcheddol ar ôl Brexit. Mae rhestr o ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad A.

2. Ar 20 Mehefin 2018, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda'r sefydliadau neu'r unigolion canlynol:

- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA);
- Undeb Amaethwyr Cymru (FUW);
- Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC);
- Undeb Genedlaethol y Ffermwyr (NFU);
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI);
- Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL);



- Dr Viviane Gravey, Prifysgol y Frenhines, Belfast.

3. Cafodd Dr Victoria Jenkins, Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, Prifysgol Abertawe, gymrodoriaeth academiaidd â Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad ar fframweithiau cyffredin ar gyfer y gyfraith a pholisi amgylcheddol ar ôl Brexit. Lluniodd bapur yn trafod y gofyniad ar gyfer fframweithiau cyffredin rhwng y DU a llywodraethau datganoledig mewn meysydd polisi amgylcheddol ar ôl Brexit.

4. Roedd papur Dr Jenkins yn canolbwyntio ar bryderon strwythurol o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru, ac yn defnyddio hynny fel modd o ystyried effaith fframweithiau cyffredin. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Dr Jenkins ar ei phapur ar 20 Mehefin 2018.

2. Datblygu fframweithiau cyffredin

Bil yr UE (Ymadael) a Chytundeb Rhynglywodraethol

5. Mae Bil yr UE (Ymadael) yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud rheoliadau sy'n cyfyngu ar bwerau'r Cynulliad i ddeddfu mewn meysydd datganoledig. Dadleuwyd bod hyn yn angenrheidiol i sefydlu fframweithiau deddfwriaethol cyffredin ar gyfer y DU ar ôl iddi adael yr UE. Mae'r pŵer i osod cyfyngiadau yn para am hyd at ddwy flynedd ar ôl y 'diwrnod ymadael' a gall y cyfyngiadau penodol bara am hyd at bum mlynedd.

6. Ar 25 Ebrill 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr UE (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin. Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn amlinellu y bydd fframweithiau cyffredin sydd â sylfaen deddfwriaethol yn ddarostyngedig i Gonfensiwn Sewel.

Cydweithredu rhwng llywodraethau

7. Yn y cyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (EN) (JMC EN) ar 3 Mai 2018, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cytuno ar gynlluniau i gydweithio ar fframweithiau cyffredin. Bydd y cynlluniau'n cynnwys trafodaethau ar lefel swyddogol amlochrog mewn amrywiaeth o feysydd lle y gallai fod angen fframweithiau.

8. Mae'r JMC yn ffordd o gydlynu perthnasau pedair gwlad gyfansoddol y DU. Roedd barn gyffredin ymysg rhanddeiliaid na fydd y model JMC yn fforwm priodol ar gyfer cydweithredu rhwng llywodraethau ar ôl i'r DU adael yr UE. Awgrymodd Dr Gravey nad yw'n cwrdd yn aml ac nad yw'n ddigon agored na thryloyw.

9. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod dulliau rhynglywodraethol priodol yn angenrheidiol er mwyn i lywodraethau'r DU gytuno ar faterion yn ymwneud â fframweithiau cyffredin ac i ddatrys anghydfodau. Ar 1 Mai 2018, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, George Eustice AS, wrth y Pwyllgor Materion Cymreig y byddai datrys anghydfodau yn cael ei drafod fel rhan o gam nesaf y broses fframweithiau cyffredin, ynghyd â phrosesau craffu.

10. Pwysleisiodd Dr Gravey y bydd angen ymestyn cydweithredu rhwng pedair llywodraeth y DU y tu hwnt i ddatblygu fframweithiau cyffredin yn y meysydd polisi a nodir yn nadansoddiad Llywodraeth y DU. Bydd cymwyseddau allweddol a gedwir yn ôl, fel masnach ac ymfudo, yn cyfyngu'n sylweddol ar raddau'r gwahaniaeth.

11. Daeth Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad i'r casgliad mewn adroddiad diweddar¹ bod angen cryfhau'r cysylltiadau rhynglywodraethol presennol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau newydd y bydd y DU yn eu hwynebu ar ôl Brexit. Yn y byrdymor, dylid cyflawni hyn drwy gryfhau strwythur presennol y JMC. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol o'r farn mai Cyngor Gweinidogion y DU yw'r ateb hirdymor mwyaf cydlynus er mwyn datrys pryderon ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol.

Asesiad dros dro Llywodraeth y DU ar fframweithiau'r DU

12. Ar 16 Hydref 2017, cytunodd llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar egwyddorion sy'n llywodraethu sefydlu fframweithiau cyffredin ar gyfer y DU ar ôl iddi adael yr UE. Mae Hysbysiad y JMC (EN)² sy'n pennu'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yn egluro y bydd fframweithiau yn cael eu sefydlu er mwyn:

- Galluogi gweithrediad marchnad fewnol y DU, gan gydnabod gwahaniaethau polisi;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- Sicrhau bod y DU yn gallu negodi, cyflwyno a gweithredu cytundebau masnach newydd a chytundebau rhyngwladol;
- Galluogi rheolaeth adnoddau cyffredin;

¹ Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018

²https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/652285/Joint_Ministerial_Committee_communique.pdf

- Gweinyddu a darparu mynediad at gyfiawnder mewn achosion ag elfen drawsffiniol;
- Sicrhau diogelwch y DU.

13. Ar 9 Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hasesiad dros dro³ o'r meysydd lle gallai fod angen fframweithiau cyffredin y DU ar ôl Brexit, mewn meysydd cyfraith UE sy'n croesdorri â chymhwysedd datganoledig. Mae'r asesiad yn dyrannu 155 o bwerau i dri categori:

- y rhai a allai fod angen fframweithiau deddfwriaethol (24 maes);
- fframweithiau anneddfwriaethol (82 maes);
- meysydd lle nad oes angen gweithredu pellach (49 maes).

14. Mae'r asesiad hefyd yn rhestru 12 maes polisi y mae Llywodraeth y DU yn credu eu bod wedi'u cadw'n ôl ond eu bod yn dal yn destun trafod gyda'r llywodraethau datganoledig.

15. Dywed Llywodraeth y DU fod yr asesiad yn ddogfen waith, wedi'i chynllunio i lywio'r ymgysylltiad rhwng swyddogion yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth sifil yng Ngogledd Iwerddon. Mae wedi cael ei lywio gan adolygiadau polisi manwl, a ddisgrifir fel ymarferion a wneir gan weision sifil i ddadansoddi'n fanwl y materion yn ymwneud â gweithredu fframweithiau cyffredin.

16. Er bod rhanddeiliaid yn croesawu'r egwyddorion a nodir yn Hysbysiad y JMC (EN), roeddent yn beirniadu'r diffyg cyswllt amlwg rhwng yr egwyddorion a'r dadansoddiad fframwaith dros dro. Yna aethant ati i ddweud, o ran yr egwyddorion, ei bod yn ymddangos bod rheoli adnoddau cyffredin wedi cael blaenoriaeth llawer is o gymharu â masnach a'r farchnad fewnol.

17. Roedd rhai rhanddeiliaid yn credu bod defnyddio fframweithiau presennol yr UE fel man cychwyn ar gyfer asesu gofynion yn y dyfodol yn gamgymeriad. Awgrymwyd bod y penderfyniad i adael yr UE yn rhoi cyfle i'r DU ailfeddwl yn llwyr am ei ddull o reoli adnoddau naturiol, i gyflwyno systemau sy'n gwbl bwrpasol i anghenion y DU. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn cytuno mai defnyddio fframweithiau presennol yr UE fel sail ar gyfer y gwaith hwn oedd y ffordd fwyaf priodol o weithredu, o ystyried cymhlethdod y gwaith a'r amser sydd ar gael.

³ <https://www.gov.uk/government/publications/frameworks-analysis>

18. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon bod asesiad dros dro Llywodraeth y DU yn dangos dull polisi sydd â llai o fframweithiau cyffredin ar waith ar ôl i'r DU adael yr UE. Roedd pryderon cysylltiedig y gallai'r fframweithiau deddfwriaethol sy'n llywodraethu rhai meysydd gael eu disodli â fframweithiau anneddfwriaethol yn y dyfodol. Roedd pryderon ychwanegol ei bod hi'n ymddangos na fu asesiad o effaith newidiadau o'r fath.

19. Argymhellodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylai'r gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin gael eu hategu gan ddadansoddiad annibynnol a gwrthrychol o ble mae fframweithiau cyffredin yn angenrheidiol ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Roeddent o'r farn y dylai'r dadansoddiad gael ei gomisiynu gan y pedair llywodraeth sydd yn y DU. Roedd JNCC, RTPI ac NFU yn cytuno â'r cynnig hwn.

Darparu ar gyfer gwahaniaethau

20. Fe wnaeth nifer o gyfranogwyr dynnu sylw at yr angen am hyblygrwydd mewn fframweithiau i ddarparu ar gyfer gwahaniaethau ledled y DU. Er enghraifft, pwysleisiodd yr NFU a'r FUW fod hyn yn ofynnol i gydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu amaethyddiaeth Cymru. Nododd Comisiynydd y Gymraeg y bydd angen i fframweithiau cyffredin ddarparu ar gyfer materion sy'n benodol i Gymru, fel y Gymraeg.

21. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid y gallai rhwymedigaethau rhyngwladol gyfyngu ar faint y gwahaniaethau.

Integreiddio polisiau

22. Cododd yr RSPB a WEL bryderon am y diffyg integreiddio amlwg rhwng meysydd polisi. Er enghraifft, rhestrir amaethyddiaeth a physgodfeydd yn feysydd y mae angen fframweithiau deddfwriaethol arnynt, ond gallai penderfyniadau polisi yn y meysydd hyn gael goblygiadau ar feysydd amgylcheddol, y mae angen fframweithiau anneddfwriaethol ar nifer ohonynt neu ddim fframwaith o gwbl. Roedd pryder y gallai hyn arwain at ddull llai integredig o fynd i'r afael â materion o'r fath ar ôl Brexit. Cyfeiriodd Dr Gravey at gategoreiddio materion amgylcheddol trawsffiniol, megis ansawdd dŵr ac aer, yn rhai sydd naill ai â fframweithiau anneddfwriaethol neu ddim fframweithiau o gwbl i'w hategu, fel enghraifft o integreiddio polisi.

Tryloywder a chraffu

23. Tynnodd Dr Gravey tynnu sylw at y ffaith bod fframweithiau presennol yr UE wedi cael eu mabwysiadu mewn system wleidyddol hynod dryloyw, a

phleidleisiau gan aelod-wladwriaethau a dinasyddion a chyfleoedd i fusnesau a chymdeithas sifil ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn gosod cynsail ar gyfer sefydliadau domestig presennol megis y JMC.

24. Roedd nifer o'r rhai a gyfrannodd at ymchwiliad y Pwyllgor yn credu bod diffyg tryloywder ynghylch y datblygiad a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu pa feysydd y dylai fod angen fframweithiau. Amlygodd nifer o gyfranwyr bwysigrwydd cyfraniad rhanddeiliaid i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu fframweithiau cyffredin.

Ein barn

Mae cytundeb eang bod angen fframweithiau cyffredin er mwyn darparu cysondeb rheoleiddio a sicrwydd cyfreithiol ar ôl i'r DU adael yr UE. O ran materion amgylcheddol a lles anifeiliaid, gallai fframweithiau cyffredin sicrhau safonau priodol, trawsffiniol ar gyfer yr amgylchedd a lles anifeiliaid a rheoli adnoddau cyffredin yn effeithiol.

Rhaid cynrychioli blaenoriaethau pob llywodraeth yn y DU wrth ddatblygu fframweithiau cyffredin a rhaid darparu ar gyfer gwahaniaethau polisi ledled y DU. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fod â'r rhyddid angenrheidiol i ddatblygu polisi mewn meysydd datganoledig.

Cydweithredu rhwng llywodraethau

Fel y gwnaeth y Pwyllgor yn glir yn ei Adroddiad ar Ddyfodol Rheoli Tir yng Nghymru (Mawrth 2017), bydd gadael yr UE yn golygu y bydd angen perthnasau rhynglywodraethol newydd.

Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'n rhanddeiliaid nad yw'r JMC, fel y mae ei gyfansoddiad ar hyn o bryd, yn ddull priodol i fynd ymlaen â'r materion hyn. Credwn fod angen cael model llywodraethu cyffredin, ac yn parhau i gymeradwyo cynnig Llywodraeth Cymru am Gyd-bwyllgor y Gweinidogion i'w ddatblygu yn 'Gyngor Gweinidog y DU', gyda statws cyfartal i bob rhan cyfansoddiad o'r DU. Rhaid i'r corff newydd hwn fod yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau; rhaid iddo fod â mecanwaith datrys, cymrodeddu a dyfarnu anghydfod annibynnol; a bod yn dryloyw ac yn atebol.

Rydym yn falch yr ymddengys y bu cydweithredu rhwng swyddogion yn y DU a gweinyddiaethau datganoledig fel rhan o'r ymarferion adolygiadau polisi manwl. Rydym hefyd yn nodi, ar 3 Mai 2018, cyhoeddwyd bod Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cytuno ar gynlluniau i gydweithio ar

fframweithiau cyffredin. Fel y gwnaethom ddweud yn ein hadroddiad diweddar ar Lywodraethu ac Egwyddorion Amgylcheddol⁴, rydym yn pryderu am y diffyg ymddangosiadol ar lefel Gweinidogol.

Mae cydweithio rhynglywodraethol effeithiol yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin. Hoffem weld mwy o dystiolaeth o berthynas gydweithredol iach rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ni ddylai blaenoriaethau Cymru, gan gynnwys y Gymraeg ac anghenion penodol ffermwyr ucheldiroedd Cymru, gael eu rhoi mewn perygl oherwydd diffyg cydweithredu rhwng llywodraethau.

Egwyddorion y JMC

Ynghyd â'n rhanddeiliaid, rydym yn croesawu'n gyffredinol yr egwyddorion a nodir yn Hysbysiad JMC (EN) Hydref 2017. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o'r sut mae'r egwyddorion hyn wedi'u cymhwyso i ddatblygiad asesiad dros dro Llywodraeth y DU.

Rydym yn cytuno â'r Institute for Government, a ddywedodd bod cryn dipyn o le i ddehongli'r egwyddorion a bennir yn yr Hysbysiad JMC ac roedd yn dadlau bod diffiniad y cytunir arno o'r chwe egwyddor yn hanfodol.

Asesiad dros dro Llywodraeth y DU

Rydym yn nodi mai dogfen waith yw bwriad asesiad Llywodraeth y DU, sydd wedi'i gynllunio i lywio gwaith ymgysylltu rhwng swyddogion. Fodd bynnag, mae'r diffyg tryloywder y tu ôl i'r datblygiad yn bryder i'r Pwyllgor hwn. Nid yw Llywodraeth y DU wedi egluro'r rhesymeg dros benderfynu p'un a oes angen fframweithiau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol mewn rhai meysydd a ddim mewn rhai eraill. Mae'r diffyg tryloywder wedi'i gwneud hi'n anodd iawn i graffu ar y broses a'r allbwn.

Mae cynigion presennol Llywodraeth y DU ar gyfer fframweithiau cyffredin yn canolbwyntio ar bryderon gwleidyddol a masnach gyda llai o bwyslais ar reoli adnoddau naturiol. Credwn y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sicrhau yr eir i'r afael â'r anghydbwysedd hwn.

Rydym yn cytuno y dylai penderfyniadau ar p'un a oes angen fframweithiau cyffredin gael eu hategu gan egwyddorion cadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Rhaid bod yn eglur p'un a oes angen fframweithiau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.

⁴ [Llywodraethu ac Egwyddorion Amgylcheddol](#)

Rydym hefyd yn pryderu bod perygl y gallai ymgais i leihau nifer y fframweithiau cyffredin arwain at ddull llai integredig i faterion trawsffiniol, yn enwedig materion amgylcheddol, yn y dyfodol. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r diffyg egwyddorion clir sy'n ategu'r broses.

Bydd angen i'r fframweithiau cyffredin sy'n dod i'r DU gael systemau llywodraethu newydd ar gyfer goruchwyllo a gorfodi yn absenoldeb y Comisiwn Ewropeaidd, Llys Cyfiawnder Ewrop a sefydliadau eraill yr UE. Mae'r Pwyllgor wedi archwilio hyn yn ei ymchwiliad ar Lywodraethu ac Egwyddorion Amgylcheddol⁵.

Tryloywder a chraffu

Mae'n bwysig, yn ystod y trafodaethau manwl hyn ynghylch rheolau a strwythurau, nad yw llywodraethau yn colli golwg ar rôl a hawliau'r dinesydd. Rydym yn cytuno â'n rhanddeiliaid bod rhaid i ni sicrhau cyfleoedd i ddinasyddion, busnes a'r gymdeithas sifil ymgysylltu â'r broses llunio penderfyniadau a gweithredu. Rhaid hefyd cael cyfleoedd clir a hygyrch i herio cymhwysu'r ddeddfwriaeth amgylcheddol.

Bu cyfleoedd cyfyngedig i'r deddfwrfeydd yng ngwledydd cyfansoddiadol y DU i ddylanwadu neu graffu ar ddatblygu fframweithiau hyd at y pwynt hwn. Bydd angen sicrhau bod unrhyw ddulliau yn y dyfodol yn hwyluso'r gwaith craffu hwn. Yn benodol, bydd angen hefyd sicrhau bod mecanwaith ar waith er mwyn i ddeddfwrfeydd y DU graffu ar gytundebau rhynglywodraethol anneddfwriaethol.

At hynny, mae'n hanfodol bod dulliau priodol ar waith i sicrhau y gellir craffu ar gymhwysiad y fframweithiau cyffredin yn barhaus. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan fydd polisi llywodraethau'r DU yn amrywio yn y dyfodol.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru llunio dulliau gweithio rhynglywodraethol ffurfiol. Mae angen model llywodraethu cyffredin i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud a champau yn cael eu cymryd ar sail cydraddoldeb parch. Dylid diwygio Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (JMC), neu dylid sefydlu Cyngor Gweinidogion y DU newydd, er mwyn bwrw ymlaen â'r materion hyn. Rhaid cael dulliau cymrodeddu a dyfarnu yn gysylltiedig â'r corff hwn er mwyn datrys anghydfodau. Mae'n rhaid iddo fod yn dryloyw.

⁵ [Llywodraethu.ac.Egwyddorion.Amgylcheddol](#)

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau'r rôl y mae wedi'i chymryd i ddatblygu asesiad dros dro Llywodraeth Cymru o fframweithiau cyffredin. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei sefyllfa o ran asesiad dros dro Llywodraeth Cymru a dylai gyhoeddi ymateb ffurfiol iddo.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi unrhyw esboniad y mae wedi'i gael gan Lywodraeth y DU ynghylch y rhesymeg dros benderfynu p'un a yw fframweithiau yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau sut y mae wedi sicrhau bod materion sy'n unigryw i Gymru, fel y Gymraeg, wedi cael sylw wrth ystyried fframweithiau cyffredin. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gadarnhau p'un a yw wedi asesu effaith asesiad dros dro Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig gytuno ar ddiffiniadau o'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yn hysbysiad JMC yn Hydref 2017 a chyhoeddi'r diffiniadau hynny.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod gan y Cynulliad gyfleoedd digonol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin ac i graffu ar y cynigion terfynol.

Argymhelliad 7. Nid yw rhanddeiliaid wedi'u darbwylllo eto eu bod wedi cael eu cynnwys mewn ffordd ystyriol wrth ddatblygu'r fframweithiau cyffredin. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â hyn.

Argymhelliad 8. Rhaid i'r hawliau sydd gan ddinasyddion ar hyn o bryd i herio cymhwysiad deddfwriaeth amgylcheddol gael eu cadw mewn fframweithiau cyffredin i'r DU. Rhaid i'r broses ar gyfer herio cymhwyso deddfwriaeth fod yn glir ac yn hygyrch.

3. Materion penodol i'w hystyried

25. Cynigiodd rhanddeiliaid eu dadansoddiad eu hunain o feysydd polisi unigol i'r Pwyllgor, sydd wedi'u nodi isod.

Amaethyddiaeth

26. Awgrymodd yr FUW y gall rhai o'r 49 maes o'r asesiad dros dro sydd yn y categori nad oes angen unrhyw gamau pellach arnynt, fod angen fframweithiau cyffredin neu ddeddfwriaethol, mewn gwirionedd, i sicrhau cystadleuaeth deg. Roedd yn galw am fframweithiau i sicrhau ac amddiffyn cyllid hirdymor digonol

ar gyfer amaethyddiaeth a chymunedau gwledig, wrth barchu pwerau datganoledig dros amaethyddiaeth. Roedd yr FUW yn datgan bod yn rhaid i fframweithiau *gorfodadwy* fod ar waith yn debyg i'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Roedd Dr Jenkins hefyd yn dadlau dros fframweithiau deddfwriaethol yn y meysydd hyn oherwydd goblygiadau pwysig amaethyddiaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol cynaliadwy yng Nghymru.

27. Mae Gweledigaeth Rheolaeth Tir Cynaliadwy WEL yn cefnogi ymagwedd cyllid cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus at bolisi rheoli tir. Cred WEL y dylai pedair gwlad y DU ymrwmo i'r un dull hwn at ddibenion gweithredu marchnad fewnol, ac osgoi dadreoleiddio cystadleuol.

Pysgodfeydd

28. Nododd WEL fod angen trafodaethau pellach ynglŷn â rheoleiddio pysgodfeydd ac y gallai gynnwys fframweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Mae ymrwymiad i bysgota ar lefelau cynaliadwy yn golygu gosod Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir yn unol â'r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael gan sefydliadau gwyddonol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae angen cymhwysu'r egwyddor ragofalus hefyd er mwyn cynnal stociau pysgod uwchlaw'r lefelau a all gynhyrchu'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf a sicrhau, erbyn 2020, bod marwoldeb pysgota yn is na'r lefelau a fydd yn cyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf.

29. Mae'r Pwyllgor wrthi'n cynnal ymchwiliad cychwynnol i bysgodfeydd ar ôl Brexit a bydd yn cyflwyno adroddiad maes o law.

Asesiad o Effaith Amgylcheddol (EIA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)

30. Awgrymodd RSPB a WEL fod ymagwedd anghyson tuag at gategorïau rhai meysydd polisi gan Lywodraeth y DU, er enghraifft yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol (EIA) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA). Mae deddfwriaeth yr UE wedi darparu fframwaith cyffredin yn y meysydd hyn (gyda hyblygrwydd ar gyfer gweithredu amrywiol ar lefel ddatganoledig). Mae'r asesiad dros dro yn defnyddio ymagwedd wahanol, gan ddosbarthu'r EIA yn faes lle nad oes angen gweithredu pellach a'r SEA yn faes lle mae angen fframweithiau anneddfwriaethol.

31. Pwysleisiodd WEL werth fframweithiau cyffredin presennol ar gyfer yr EIA a'r SEA wrth asesu effeithiau amgylcheddol tebygol cynlluniau, rhaglenni a

phrosiectau, yn arbennig ar gyfer gweithgareddau sydd ag effeithiau trawsffiniol. Roedd WEL yn defnyddio enghraifft SEA Llywodraeth y DU o gylchoedd trwyddedu olew a nwy a datblygiadau ynni alltraeth eraill.

32. Roedd WEL o'r farn bod gosod EIA yn y categori 'dim angen gweithredu pellach' yn anghywir o ran cyfiawnder amgylcheddol gan nad yw hyn yn cyflawni egwyddorion JMC (EN) ar fynediad i gyfiawnder a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol megis Confensiwn Aarhus. Roedd Dr Jenkins yn dadlau bod angen fframweithiau ar gyfer EIA a SEA.

Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

33. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD) yn hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r moroedd a chadwraeth ecosystemau morol. Roedd rhanddeiliaid yn credu y dylid cadw'r fframweithiau cyffredin a ddarparwyd gan Reoliadau'r UE tra'n caniatáu rhyddid i bob gwlad fynd ymhellach.

Rheoli gwastraff

34. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi rheoli gwastraff yn y categori y mae angen fframweithiau anneddfwriaethol arnynt. Mae rheoliadau eraill, y gellir dadlau sy'n gysylltiedig, sy'n ymwneud â deunydd pacio a chynnyrch gwastraff, wedi'u rhoi mewn categori fel rhai sydd angen fframweithiau deddfwriaethol. O gofio bod deddfwriaeth bresennol yr UE (fel *Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE* a *Chyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio*) wedi'i chynllunio ar gyfer y cyfundrefnau hyn i weithio gyda'i gilydd, dywedodd WEL ei bod hi'n aneglur beth yw'r rhesymeg dros y gwahaniaethau mewn categorïau.

35. Roedd y Ffederasiwn Bwyd a Diod (FDF) hefyd yn awyddus i sicrhau bod polisi'r UE sy'n ymwneud â chyfrifoldeb cynhyrchwyr am ddeunyddiau pacio a'r targedau ailgylchu busnes cysylltiedig yn parhau i gael ei ddatblygu ledled y DU.

Rheoli perygl llifogydd, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr

36. Dywedodd WEL wrth y Pwyllgor eu bod o'r farn bod Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE (WFD) a'r cyfarwyddebau y mae wedi esgor arnynt yn hollbwysig i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr, gan gynnwys ansawdd dŵr trawsffiniol. Roedd hefyd yn tynnu sylw at effeithiolrwydd Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE wrth reoli risg llifogydd yn drawsffiniol.

37. Mae'r WFD yn mabwysiadu dull ardal basn afon wrth reoli ansawdd dŵr. Mae'n golygu bod angen i wahanol awdurdodaethau gydweithio wrth lunio cynlluniau rheoli ar gyfer basnau afonydd sydd ar draws ffiniau awdurdodaeth;

gweithredu mesurau rheoli y cytunir arnynt; monitro gwelliannau mewn ansawdd dŵr. Mae hefyd yn gofyn am adolygiad o gynnydd a chynlluniau rheoli dŵr er mwyn cyflawni amcanion ansawdd dŵr. Ledled y DU, mae'r fframwaith cyffredin a ddarperir ar hyn o bryd gan yr WFD yn hwyluso dull cydlynol i reoli a gwella basnau afon trawsffiniol.

38. Mae Llywodraeth y DU wedi categorio'r mater hwn fel un nad oes angen gweithredu pellach, ond mae rhanddeiliaid gan gynnwys WEL a Dr Jenkins yn dadlau bod angen fframwaith cyffredin.

Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd

39. Ar hyn o bryd, mae Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yn gosod fframwaith cyffredin ar gyfer cadwraeth natur sy'n darparu cefnogaeth gyson ar draws ffiniau gwleidyddol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen camau cydlynol er mwyn gwarchod ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau yn effeithiol.

40. Mae'r hyblygrwydd o fewn Cyfarwyddebau'r UE wedi caniatáu i wledydd y DU fabwysiadu eu hymagwedd eu hunain at gyflawni amcanion yr UE. Ar ôl Brexit, bydd gwaith cydlynu trawsffiniol yn parhau i fod yn hanfodol ar gyfer cadwraeth natur effeithiol yn unol ag ymrwymadau y wlad a rhyngwladol.

41. Mae fframweithiau monitro a sefydlwyd o dan y Cyfarwyddebau hyn yn cael budd o ymagwedd gyffredin, gan alluogi pedair gwlad y DU i asesu statws rhywogaethau a chynefinoedd yn gyson. Mae'r Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd wedi'u rhestru yn asesiad dros dro Llywodraeth y DU fel rhai sydd angen fframweithiau anneddfwriaethol. Roedd Dr Jenkins yn dadlau bod angen fframweithiau deddfwriaethol ar y materion hyn.

Rhywogaethau goresgynnol estron

42. Nododd RSPB a WEL nad oes polisi ar gyfer rhywogaethau estron ymledol (IAS) heb unrhyw esboniad am hyn gan Lywodraeth y DU. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod IAS yn fygythiad mawr i economi ac amgylchedd y DU ac y dylid mynd i'r afael â hynny drwy ddull trawsffiniol ac felly dylid ei gwmpasu gan fframwaith cyffredin.

Lles anifeiliaid

43. Mae iechyd anifeiliaid a'r gallu i'w tracio a lles anifeiliaid wedi eu dosbarthu yn rhai y mae angen fframweithiau deddfwriaethol arnynt yn asesiad dros dro Llywodraeth y DU.

44. Pwysleisiodd Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid (NOAH), The Dog's Trust a Cats Protection bwysigrwydd fframweithiau deddfwriaethol y DU ar gyfer polisiau iechyd a lles anifeiliaid er mwyn amddiffyn yn erbyn afiechydon a chynnal arfer gorau mewn lles anifeiliaid ledled y DU.

45. Pwysleisiodd Cats Protection bwysigrwydd fframweithiau deddfwriaethol rhagnodol ar gyfer y cynllun pasbort anifeiliaid anwes. Tynnodd The Dog's Trust tynnu sylw at bwysigrwydd fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer lles anifeiliaid cydymaith wrth deithio a gwerthu a mewnfario/allfario blew cŵn. Amlygodd NOAH bwysigrwydd fframweithiau deddfwriaethol y DU i sicrhau bod meddyginiaethau milfeddygol yn parhau i fod ar gael. Gallai unrhyw wahaniaethau ledled y DU gynyddu'r risg o'r meddyginiaethau sydd ar gael.

Dangosyddion Daeryddol Bwyd

46. Cododd Cytûn bryder ynghylch Dangosyddion Daeryddol Bwyd (enwau bwyd a ddiogelir) yn cael eu dosbarthu yn un o'r 12 mater a gedwir yn ôl yn yr asesiad dros dro. Mae'n awgrymu y dylai Dangosyddion Daeryddol Bwyd fod yn fater datganoledig sy'n ddarostyngedig i fframweithiau yn hytrach na'u cadw yn ôl.

Rheoliadau ar gyfer diwydiant

47. Pwysleisiodd Purfa Valero Penfro y pwysigrwydd o gydnabod bod busnesau Cymru yn cystadlu mewn marchnad fyd-eang ac na ddylai rheoleiddio roi Cymru dan anfantais. O'r 49 maes y mae Llywodraeth y DU wedi'u hasesu fel rhai nad oes angen fframweithiau arnynt, mae dal a storio carbon, rheoli peryglon damweiniol mawr a'r EIA yn feysydd sy'n peri pryder arbennig i Valero. Mae Valero yn nodi y gallai meysydd sydd wedi eu categoreiddio yn rhai y mae angen fframweithiau anneddfwriaethol arnynt megis y SEA, y Gyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni, ansawdd aer, yr amgylchedd morol a rheoli gwastraff, gael effaith ar ei busnes pan fo agweddau gwahanol yn dod i'r amlwg ledled y DU. Mae'n nodi hefyd bod y fframweithiau deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer rheoliadau cemegau REACH, nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio (Nwyon F), a Chynllun Masnachu Allyriadau'r UE (ETS) yn gofyn am ddull gweithredu a diben digon cyffredin i osgoi anfanteision cystadleuol.

Ein barn

Mae penderfynu ar y dull rheoleiddio a deddfwriaethol mwyaf priodol ar ôl i'r DU adael yr UE yn her sylweddol.

Fodd bynnag, fel y nodir yn adran dau o'r adroddiad hwn, mae diffyg egwyddorion clir a rhesymeg yn sail i'r penderfyniadau hyn. Mae hyn yn waeth oherwydd diffyg tryloywder yn y broses, sydd wedi'i gwneud yn anodd deall y penderfyniad ac i graffu arno. Rydym wedi nodi yn rhannau blaenorol yr adroddiad hwn ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem hon.

Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y pwyntiau a nodir gan randdeiliaid ym mharagraffau 26-47 o'r adroddiad hwn yn cael eu hadleywrhcu ac yn cael eu datrys mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch fframweithiau cyffredin.

Atodiad A - Tystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn **Ymatebion i'r**

Ymgynghoriad

Dr Viviane Gravey, Prifysgol Queen's, Belfast

Cats Protection

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ffederasiwn Bwyd a Diod

Purfa Valero Penfro

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru)

Dogs Trust

Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid (NOAH)

CLA Cymru (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cyfyngedig)

RSPB Cymru (Y Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar)

Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru)

Comisiynydd y Gymraeg

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru